



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Dogfen Cyngor: Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd

---



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0845 6033 221
- E-bost: [post@comisiynyddygyymraeg.org](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.org)
- Gwefan: [comisiynyddygyymraeg.org](http://comisiynyddygyymraeg.org)

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

---

## Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
	Cyd-destun deddfwriaethol	1
	Dogfennau Cyngor Comisiynydd y Gymraeg	1
	Cyfieithu, cyfieithu ar y pryd: cyd-destun	1
2	Cyfieithu testun	3
	Paratoi testun a fydd yn cael ei gyfieithu	3
	Anfon testun at gyfieithydd i'w gyfieithu – cwmni neu unigolyn preifat	3
	Defnyddio cyfieithydd mewnol mewn sefydliad	4
	Derbyn gwaith yn ôl gan gyfieithydd	4
	Rhai materion eraill i'w hystyried	5
3	Technoleg a Chyfieithu Testun	6
	Meddalwedd cof cyfieithu	6
	Y cyfieithydd a meddalwedd cof cyfieithu	7
4	Comisiynu cyfieithu	8
	Meddalwedd rheoli prosiectau cyfieithu	8
	Gwirio sillafu a therminoleg	8
	Meddalwedd cyfieithu awtomatig	9
5	Cynnal cyfarfodydd dwyieithog â chymorth cyfieithydd ar y pryd	11
	Cyngor i gadeiryddion	11
	Canllaw i fynychwyr cyfarfodydd	12
6	Ysgrifennu'r Gymraeg/drafftio dwyieithog	13
	Cyfieithu awtomatig yn y swyddfa ddwyieithog	13

# 1 Cyflwyniad

## Cyd-destun deddfwriaethol

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (“Y Mesur”) yn gosod cyd-destun cyfreithiol newydd ar gyfer y Gymraeg. Wedi iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol ym Mis Chwefror 2011, sefydlwyd statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, yn ogystal â'r egwyddor gyffredinol na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae'r Mesur yn creu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer gosod dyletswyddau ar bersonau sy'n gweithredu yng Nghymru mewn perthynas â'r Gymraeg, ac yn hynny o beth bydd, maes o law, yn disodli llawer o ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (“Deddf 1993”).

Sefydlir Comisiynydd y Gymraeg (“y Comisiynydd”) gan Adran 2 y Mesur i weithredu'r fframwaith deddfwriaethol newydd. Mae'r Comisiynydd yn annibynnol, a bydd ei waith yn cynnwys gosod dyletswyddau cyfreithiol ar bersonau drwy 'safonau' Rhan 4 y Mesur. Bydd modd gorfodi'r safonau hynny drwy ddarpariaethau Rhan 5 y Mesur. Er mwyn cynorthwyo sefydliadau i weithredu'r safonau yn y dyfodol, bydd codau ymarfer safonau'n cael eu llunio. Bydd y drefn gyfreithiol o safonau'n cael ei datblygu dros y blynyddoedd nesaf.

Mae llawer o'r sefydliadau cyhoeddus a fydd yn ddarostyngedig i safonau yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg statudol ar hyn o bryd, o dan Ddeddf 1993. Pan ddaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ben ddiwedd Mawrth 2012, trosglwyddwyd ei ddyletswyddau mewn perthynas â Chynlluniau Iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd dyletswydd pob sefydliad i gydymffurfio â Chynllun Iaith a gymeradwywyd o dan Ddeddf 1993 yn parhau tan bod y sefydliad hwnnw yn dod yn ddarostyngedig i safonau o dan y Mesur.

## Dogfennau Cyngor Comisiynydd y Gymraeg

Hyd nes y bo'r safonau wedi'u sefydlu a'r codau ymarfer statudol hynny ar gael, mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi cyfres o ddogfennau cyngor i gynorthwyo unrhyw sefydliad neu unigolyn sydd am gynnig darpariaeth ddwyieithog.

I sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith o dan fframwaith deddfwriaethol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 bydd y dogfennau cyngor hyn yn gymorth i gydymffurfiaeth ac yn ategu canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynt (Adran 9, Deddf 1993).

I sefydliadau eraill bydd y dogfennau cyngor yn gymorth i gynnig gwasanaethau dwyieithog ac i weithredu mewn cyd-destun ble mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.

## Cyfieithu, cyfieithu ar y pryd: cyd-destun

I sicrhau gwasanaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd mewn sefydliadau rhagwelir y sefyllfaoedd canlynol:

- Bydd gan sefydliadau unedau cyfieithu mewnol a fydd yn diwallu'r gofynion
- Bydd sefydliadau yn caffael gwaith gan gwmnïau allanol
- Bydd sefydliadau yn defnyddio cyfuniad o gyfieithwyr mewnol a chwmnïau allanol
- Bydd sefydliadau mewn sectorau yn rhannu gwaith cyfieithu, e.e. drwy gytundebau lefel gwasanaeth neu un ganolfan yn darparu ar gyfer y sector cyfan

Bydd y ddogfen cyngor hon, felly, yn berthnasol ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol am gynllunio darpariaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd. Yn benodol mae'r ddogfen yn mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Trefniadau gwaith cyfieithu mewn sefydliad
- Y cymorth y gall Technoleg Gwybodaeth ei roi i gyfieithwyr
- Cyngor ar gyfer cynllunio cyfarfodydd dwyieithog lle bydd angen cyfieithydd ar y pryd i hwyluso'r cyfarfod Drafftio dogfennau dwyieithog

Ni fydd pob elfen o'r ddogfen cyngor hon yn gwbl berthnasol i bob sefydliad ond mae yma gyngor defnyddiol ynghylch y math o bethau y gellid eu gwneud mewn gwahanol sefydliadau. Er y bydd adrannau o'r ddogfen yn ddefnyddiol i gyfieithwyr, nid ar gyfer cyfieithwyr yn unig y'i bwriedir, ond yn hytrach ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol am drefnu neu gomisiynu gwasanaethau cyfieithu mewn sefydliad.

## 2 Cyfieithu testun

- 2.1 Dylid sicrhau bod gweithdrefnau mewn lle i alluogi sefydliadau i ddarparu testunau mewn dull sy'n sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, yn unol â'r gofynion cyfreithiol sydd arnynt mewn perthynas â'r Gymraeg.
- 2.2 Dylai holl staff y sefydliad fod yn ymwybodol o ba ddogfennau sydd i fod yn ddwyieithog ac o'r gweithdrefnau sydd yn eu lle i alluogi hynny.
- 2.3 Mae sut y bydd sefydliad yn mynd ati i gyfieithu dogfennau o'r Gymraeg i'r Saesneg yn fater i'r sefydliad ei hun. Bydd rhai sefydliadau yn cyflogi cyfieithwyr fel aelodau o staff ac eraill yn contractio â chwmnïau preifat. Bydd sefydliadau eraill yn defnyddio cyfuniad o gyfieithwyr mewnol a chyfieithwyr preifat neu yn rhannu'r gwaith â sefydliadau eraill tebyg yn eu maes er mwyn diwallu eu gofynion cyfieithu hwy.
- 2.4 Rhaid defnyddio cyfieithwyr cymwys i gyfieithu testun. Mae meddalwedd bwrpasol i gynorthwyo gwaith cyfieithwyr ond ni ddylid byth ei defnyddio yn lle cyfieithydd proffesiynol. Rhaid i gyfieithwyr dynol fod ynghlwm wrth gyfieithu dogfen; ni all peiriant gymryd lle cyfieithydd proffesiynol. Ni ddylid defnyddio dolenni at feddalwedd cyfieithu awtomatig ar y we er mwyn darparu fersiwn Cymraeg o wefan na chyhoeddiadau eraill eich sefydliad. Byddai gwneud hynny yn golygu nad ydych yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

### Paratoi testun a fydd yn cael ei gyfieithu

- 2.5 Dylai'r gweithdrefnau sydd mewn lle ar gyfer cyfieithu testunau mewn sefydliadau godi ymwybyddiaeth y staff o'r materion canlynol:
  - Sicrhau bod digon o amser ar gyfer cyfieithu a phrawfddarllen yn arbennig os bydd angen dylunio dogfen. Wrth lunio amserlen cyhoeddi dogfen, rhaid cynnwys amser i brawfddarllen y ddogfen ym mhob iaith;
  - Dylid darparu fersiwn terfynol dogfen i gyfieithydd yn hytrach na chyfres o ddrafftiau a allai gymhlethu'r broses cyfieithu a chynyddu costau;
  - Dylid cofio wrth ddrafftio dogfen, nad yw bob amser yn bosibl cyfieithu rhai pethau megis dywediadau ac idiomau yn llwyddiannus. Efallai y bydd rhai trosiadau diwylliannol hefyd yn anaddas. Os oes rhaid eu defnyddio, byddai'n syniad trafod y bwriad o wneud hynny â chyfieithydd ar ddechrau'r prosiect;
  - Dylid cofio y gellir drafftio dogfennau yn ddwyieithog o'r cychwyn. Yn aml wrth wneud hynny gallai'r mynegiant wella yn y ddwy iaith;
  - Dylid darparu cyfarwyddiadau clir i'r cyfieithydd, e.e. dolenni at ddogfennau y dyfynnir ohonynt, termau penodol y dylid eu defnyddio;
  - Gellid paratoi rhestr o eirfa sy'n berthnasol i waith y sefydliad;
  - Mae rhai mathau o waith cyfieithu yn arbenigol, megis cyfieithu cyfreithiol, a dylid sicrhau y defnyddir cyfieithydd sydd ag arbenigedd yn y maes dan sylw;
  - Yn aml, bydd cyfieithu yn gwella gwaith gwreiddiol, gan y gall cyfieithydd dynnu sylw at anawsterau neu amwysterau yn y ddogfen wreiddiol. Gall perthynas dda â chyfieithydd gynorthwyo hyn. Gellid meddwl am gyfieithydd fel pâr newydd o lygaid.

### Anfon testun at gyfieithydd i'w gyfieithu – cwmni neu unigolyn preifat

- 2.6 Mae sut y bydd gwaith yn cael ei gyfieithu yn ddibynnol ar weithdrefnau'r sefydliad sydd dan sylw. Er hynny, os bwriedir defnyddio cyfieithydd preifat dylid ystyried y

materion canlynol wrth contractio â hwy, boed hynny drwy broses caffael ffurfiol neu drwy gomisiynu cyfieithiadau yn ôl y gofyn:

- Pennu aelod(au) penodol o staff i fod yn gyfrifol am wasanaeth cyfieithu'r sefydliad. Bydd yn cofnodi manylion y gwaith, megis nifer y geiriau ac amserlen cwblhau'r gwaith. Mae hyn yn hwyluso anfon y gwaith i'w gyfieithu a'i dderbyn yn ôl, ac yn osgoi cymhlethdodau. Drwy gadw cofnod o'r gwaith hefyd gellir osgoi ailadrodd cyfieithu testunau tebyg yn y dyfodol gan fod cofnod o'r hyn a gyfieithwyd eisoes yn bodoli;
- Sefydlu perthynas waith dda ag un neu fwy o gyfieithwyr. Gellir gwneud hyn drwy gysylltu yn ôl y gofyn â chyfieithwyr neu drwy broses caffael ffurfiol, megis contract ar alw;
- Defnyddio cyfieithydd cymwys. Os ydych yn defnyddio asiantaeth cyfieithu, dylech hefyd ofyn i'r gwaith gael ei wneud gan gyfieithydd cymwys;
- I'r sawl sy'n prynu gwasanaeth cyfieithu, dylid gofyn a oes gan y cyfieithydd yswiriant indemniad. Mae'r yswiriant indemniad yn sicrhau hawliau'r cwsmer ac yn dangos agwedd broffesiynol y cyfieithydd wrth ymdrin â chleientiaid;
- Sicrhau bod gan y sefydliad sy'n comisiynu weithdrefnau mewnol addas i wirio bod y gwaith a wneir gan y cyfieithydd o'r ansawdd gorau;
- Sicrhau bod gan y cyfieithydd weithdrefnau rheoli ansawdd cyfieithu;
- Sicrhau bod proses cwyno mewn lle gan y cwmni i ddelio â chwynion am ansawdd cyfieithu;
- Mae cyfieithwyr yn dueddol o godi cyfradd cyfieithu fesul mil o eiriau ac mae gan y rhan fwyaf leiafswm y geiriau y byddant yn eu cyfieithu. Bydd rhai yn codi yn unol â'r nifer o eiriau sydd i'w cyfieithu ac eraill yn codi yn unol â'r nifer o eiriau a gyfieithir. Mae sawl cyfieithydd yn codi TAW. Dylid cytuno ar y pris cyn i'r gwaith gychwyn.
- Ystyried a ydych yn dymuno i'r cwmni ddefnyddio meddalwedd cof cyfieithu i wneud y gwaith cyfieithu. Gweler adran 3.

### Defnyddio cyfieithydd mewnol mewn sefydliad

2.7 Efallai y bydd gan eich sefydliad uned gyfieithu fewnol neu bydd un ganolfan yn gyfrifol am waith cyfieithu ar gyfer eich maes chi. Bydd pob uned neu ganolfan yn cael ei rhedeg yn wahanol, ond dylid ystyried y materion canlynol wrth gynnal gwasanaeth cyfieithu o'r fath:

- Sicrhau bod dulliau addas o brosesu gwaith cyfieithu gan gynnwys derbyn, cofnodi, blaenoriaethu, cyfieithu a dychwelyd y gwaith;
- Bod y staff cyfieithu yn gymwys i'r gwaith – nid yw'r ffaith bod rhywun yn ddwyieithog yn golygu eu bod yn gallu cyfieithu;
- Sicrhau bod meddalwedd addas i hwyluso gwaith y cyfieithydd gan gynnwys meddalwedd prosesu geiriau, meddalwedd cof cyfieithu, meddalwedd rheoli llif gwaith cyfieithu, meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg, dolenni at gronfeydd data o derminoleg addas. Gweler Adran 3;
- Sicrhau bod ganddynt gyfeirlyfrau cywir i gyfieithwyr i'w cynorthwyo â'u gwaith;
- Sicrhau bod hyfforddiant addas ar gael i staff er mwyn eu galluogi i gyfieithu'n addas ac i fod yn ymwybodol o dueddiadau newydd yn y maes.

### Derbyn gwaith yn ôl gan gyfieithydd

2.8 Dylid gwirio'r testun y bydd y cyfieithydd wedi'i gyfieithu cyn ei gyhoeddi. Rhaid sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau y prawfddarllenir y Gymraeg yn yr union yr un modd ag y prawfddarllenir y Saesneg neu ieithoedd eraill. Dylid sicrhau bod testun Cymraeg a Saesneg sy'n cael eu cyhoeddi yn cael eu trin yr un fath:

- Dylid gwirio pob darn o destun a fydd yn cael ei gyfieithu cyn ei wneud yn gyhoeddus;
- Dylid prawfddarllen pob darn o destun a ddylunnir yn y Gymraeg a'r Saesneg gan sicrhau bod swyddogion mewnol yn ymgymryd â'r gwaith neu bod cytundeb â chwmni allanol i wneud hynny.
- O dro i dro, gan ddibynnu ar y feddalwedd a ddefnyddir, ni fydd marciau diacritig (acenion) y Gymraeg yn cael eu trosglwyddo yn gywir wrth ddylunio dogfennau, posterï, arwyddion a.y.b. felly dylid talu sylw arbennig i'r mater hwn;
- Bydd rhai cyfieithwyr yn cynnig gwasanaeth prawfddarllen dogfennau. Er hynny, argymhellir gofyn i gyfieithydd neu brawfddarllenydd arall am eu barn gan y gallai'r cyfieithydd gwreiddiol fod yn rhy gyfarwydd â'r gwaith.

### Rhai materion eraill i'w hystyried

- 2.9 Os yw sefydliad yn gweithio mewn maes penodol, byddai'n ddefnyddiol iddo sefydlu contract cyfieithu ar y cyd â sefydliadau eraill yn y maes neu bennu un ganolfan i fod yn gyfrifol am waith cyfieithu ar gyfer maes penodol. Gall hyn sicrhau cysondeb y termau o fewn y maes ac arwain at arbedion wrth gomisiynu gwaith cyfieithu ar y cyd.
- 2.10 Mae'n syniad da llunio canllaw arddull er mwyn i ddrafftswyr mewnol, cyfieithwyr mewnol a chyfieithwyr allanol lynu at y canllaw hwn wrth ddrafftio'n Gymraeg neu wrth gyfieithu. Bydd modd rheoli ansawdd y gwaith a gomisiynir yn well gyda chanllaw o'r fath.
- 2.11 Os bydd sefydliad cyhoeddus yn dewis defnyddio meddalwedd cof cyfieithu gallai ei rannu â'r cyhoedd er mwyn hwyluso gwaith cyfieithu sefydliadau eraill.



## 3 Technoleg a Chyfieithu Testun

- 3.1 Gall technoleg iaith gynorthwyo'r cyfieithydd drwy gyflymu a hwyluso ei waith. Gall hefyd gynorthwyo sefydliadau sy'n comisiynu gwaith cyfieithu i sicrhau ansawdd y gwaith a gomisiynir ac i sicrhau gwerth am arian.

### Meddalwedd cof cyfieithu

- 3.2 Mae meddalwedd cof cyfieithu yn cadw cofnod o'r hyn a gyfieithwyd eisoes gan ddefnyddio'r feddalwedd. Pan fydd dogfen newydd yn cael ei chyfieithu gan ddefnyddio'r feddalwedd bydd y feddalwedd yn chwilio yn y cof am gydrannau y gellir eu defnyddio wrth gyfieithu'r darn newydd. Mae'r cydrannau hyn yn cynnwys termau neu frawddegau cyfan. Gall hyn gynorthwyo'r cyfieithydd mewn sawl ffordd:

- Nid oes angen cyfieithu testun a gyfieithwyd eisoes o'r newydd
- Mae'n arwain at gysondeb mewn arddull a themau o'r herwydd
- Gall alluogi cyfieithwyr i gyfieithu mwy o eiriau mewn llai o amser

Rhaid sicrhau bod y cyfieithiadau sy'n cael eu bwydo i'r feddalwedd o safon er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yr hyn a gynigir gan y feddalwedd o safon. Yn gynyddol felly wrth ddefnyddio'r feddalwedd, bydd y cyfieithydd yn mireinio cynnwys y cof.

- 3.3 Mae meddalwedd cof cyfieithu yn dadansoddi faint o gynnwys y ddogfen newydd sydd i'w chyfieithu sy'n cyfateb i gynnwys y cof cyfieithu. Dyma enghraifft o ddadansoddiad

Canran y gyfatebiaeth	Nifer y geiriau	Canran y geiriau %
Ailadrodd o fewn y ddogfen	277	6
100%	924	20
95% - 99%	693	15
85% - 9	370	8
75% - 84%	462	10
50% - 74%	92	2
Dim cyfatebiaeth	1802	39
Cyfanswm	4620	100

- Mae 6% o'r geiriau yn y ddogfen newydd yn cael eu hailadrodd. Efallai nad oes angen eu cyfieithu eto ond mae angen eu golygu yn sicr.
- Mae 20% o'r geiriau yn y ddogfen newydd mewn brawddegau sydd yr union yr un fath â brawddegau sy'n y cof. Efallai nad oes angen eu cyfieithu eto ond bydd angen eu golygu yn sicr.
- Mae 35% o'r geiriau yn y ddogfen newydd mewn brawddegau lle mae cyfatebiaeth rannol rhwng yr hyn sy'n y cof a'r hyn sy'n y ddogfen newydd. Mae angen gwirio, golygu a mireinio'r cyfieithiadau hyn.

- Mae 39% o'r geiriau yn y ddogfen newydd mewn brawddegau nad ydynt yn debyg o gwbl i'r hyn sy'n y cof. Mae angen cyfieithu'r brawddegau hyn i gyd o'r newydd.

### Y cyfieithydd a meddalwedd cof cyfieithu

- 3.4 Gall meddalwedd cof cyfieithu wella effeithlonrwydd a chynnyddu elw cyfieithwyr preifat gan y bydd modd iddynt drosi mwy o eiriau yn yr un amser. Gall uned gyfieithu fewnol sefydliad cyhoeddus gyfieithu mwy o eiriau yn yr amser a ganiateir iddynt, gan olygu y gall uned ymdopi â rhagor o waith cyfieithu neu ddefnyddio ei hadnoddau mewn dulliau amgen, megis i gynorthwyo swyddogion eraill i ddrafftio dogfennau yn Gymraeg yn y gweithle.
- 3.5 Gall hefyd fod o fantais i unedau a chwmnïau cyfieithu mwy gan fod rhai mathau o feddalwedd yn galluogi unigolion mewn swyddfeydd a sefydliadau gwahanol i ddefnyddio'r un feddalwedd a gweithio ar yr un ddogfen ar yr un pryd.

## 4 Comisiynu cyfieithu

4.1 Nid oes gan bob sefydliad uned gyfieithu, a hyd yn oed os oes uned fewnol mewn lle, yn aml bydd angen troi at ddarparwyr allanol i ddiwallu gofynion cyfieithu'r sefydliad. Os bydd sefydliad yn dewis gosod contract allanol drwy broses caffael gellid gwneud y canlynol:

- Ei gwneud yn ofynnol yn y contract i ddarparwyr ddefnyddio meddalwedd cof cyfieithu;
- Gofyn i'r darparwr greu cof cyfieithu arbennig ar gyfer gwneud gwaith cyfieithu ar gyfer y sefydliad;
- Ei gwneud yn ofniad y telir am gyfieithiad newydd yn ôl cyfradd y gyfatebiaeth rhwng cyfansoddiad y ddogfen newydd â chynnwys y cof hwnnw (gweler 3.3). Gallai hyn arwain at arbedion i'r sefydliad sy'n comisiynu'r gwaith;
- Ei gwneud yn ofniad contractiol mai'r sefydliad sy'n comisiynu sy'n berchen ar y cof cyfieithu. Gellir defnyddio'r cof hwn os bydd y sefydliad yn caffael gwaith cyfieithu yn y dyfodol;
- Creu ei gof cyfieithu ei hun gyda meddalwedd addas a rhannu cydrannau perthnasol o'r cof hwnnw â'r darparwr. Bydd y cyfieithydd wedyn yn defnyddio'r cydrannau perthnasol o'r cof wrth gyfieithu. Ar ôl gorffen cyfieithu gall y sefydliad ofyn am y cof, yn ogystal â'r cyfieithiad yn ôl er mwyn diweddarau cof cyfieithu'r sefydliad.

4.2 Wrth gomisiynu gwaith cyfieithu gellid talu cyfraddau gwahanol gan ddibynnu ar ganran y gyfatebiaeth rhwng y ddogfen a chynnwys y cof. Gan ddefnyddio astudiaeth achos 1 gellid talu canran yn unig o'r gost arferol y fil o eiriau i gyfieithu neu i wirio'r rhannau o'r ddogfen sy'n cyfateb yn llawn (100%) â chynnwys y cof. Mae'n hollbwysig bod y cydrannau hyn lle ceir cyfatebiaeth llawn yn cael eu gwirio. Gellid talu canran uwch o gost arferol y fil o eiriau ar gyfer y cydrannau sy'n cyfateb yn rhannol 50-99%. Ar gyfer y cydrannau hynny y mae angen eu cyfieithu i gyd o'r newydd dylid talu'r gost arferol.

4.3 Dylid cofio, wrth gwrs, fod rhai dogfennau, megis adroddiadau blynyddol yn fwy ailadroddus na'i gilydd ac y gall arbedion ddod yn amlycach gyda chylch blynyddol gwahanol ddogfennau.

### Meddalwedd rheoli prosiectau cyfieithu

4.4 Mae meddalwedd rheoli prosiectau cyfieithu ar gael hefyd. Yn ddibynnol ar y feddalwedd gellir gwneud cais am gyfieithiad, pennu amserlenni a rheoli llif y gwaith cyfieithu o un lleoliad canolog. Gellir rhannu'r gwaith rhwng cyfieithwyr, a hyd yn oed ymdrin â materion bilio hefyd. Efallai y byddai'n fuddiol buddsoddi yn y math yma o feddalwedd os yw'r sefydliad yn gwneud a/neu'n comisiynu llawer o waith cyfieithu.

### Gwirio sillafu a therminoleg

4.5 Elfen bwysig o sicrhau safon dogfennau dwyieithog sefydliad yw sicrhau bod y derminoleg a ddefnyddir yn gyson. Bydd hyn yn rhoi sglein ar ddelwedd y sefydliad. Byddai'n fuddiol llunio rhestr o dermau y bydd sefydliad yn eu defnyddio neu ofyn i ddarparwr cyfieithu eu cynnull ar gyfer y sefydliad. Gellir rhannu'r termau gyda'r darparwyr cyfieithu a gofyn iddynt eu defnyddio wrth eu gwaith. Mae modd i gyfieithwyr hefyd lunio rhestrau o dermau o fewn meddalwedd cof cyfieithu. Gellir

gofyn iddynt lwytho'r rhestr o dermau i mewn i'w meddalwedd cof cyfieithu hefyd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu defnyddio.

4.6 Mae rhestrau termau safonol ar gael ar y gwefannau canlynol:

- Porth Termau Cenedlaethol Cymru<sup>1</sup>;
- TermCymru: dyma'r termau y bydd cyfieithwyr Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu defnyddio wrth eu gwaith<sup>2</sup>;
- Termau Microsoft (nid yw'r wefan yn Gymraeg): dyma'r termau y mae cwmni Microsoft yn eu defnyddio wrth leoleiddio meddalwedd Cymraeg<sup>3</sup>;
- Mae pecyn geiriaduron termau CysGeir ar gael o fewn pecyn meddalwedd Cysgliad sy'n cynnwys gwirydd sillafu a gramadeg Cysill hefyd. Maent hefyd ar gael yn y Port Termau uchod. Am ragor o wybodaeth gweler gwefan Cysgliad<sup>4</sup>;
- Mae *Geiriadur yr Academi* ar-lein sy'n eiriadur o'r Saesneg i'r Gymraeg hefyd ar gael<sup>5</sup>.

4.7 Mae'n hollbwysig fod cyfieithwyr, a phawb sy'n cyhoeddi dogfennau cyhoeddus yn enw sefydliad, yn gwirio sillafu a gramadeg y dogfennau hynny. Mae rhaglenni Microsoft Office, o osod Pecyn Rhyngwyneb Cymraeg arnynt (ceir rhagor o wybodaeth am hyn ar wefan y Comisiynydd), yn gwirio sillafu o fewn dogfennau os nodir mai iaith y ddogfen yw'r Gymraeg. Gellir defnyddio meddalwedd Cysill sy'n rhan o becyn Cysgliad (sy'n cynnwys geiriadur termau Cymraeg/Saesneg CysGeir hefyd) er mwyn gwirio gramadeg a sillafu. Mae Cysgliad ar gael ar gyfer ei ddefnyddio ar gyfrifiadur personol, ac mae ar gael am ddim ar gyfer Mac. Gellir hefyd wirio dogfennau gyda Cysill ar y we ar wefan CySill ar-lein.<sup>6</sup> Dylid sicrhau bod gwirio iaith dogfennau yn rhan annatod o brosesau cyfieithu mewnol y sefydliadau yn ogystal â phrosesau contractwyr cyfieithu allanol. Dylid gwneud hyn yn ofyniad contractiol.

### Meddalwedd cyfieithu awtomatig

4.8 Math arall o feddalwedd sy'n gallu cynorthwyo gwaith cyfieithwyr yw meddalwedd cyfieithu awtomatig neu gyfieithu peirianyddol. Bydd meddalwedd cyfieithu awtomatig yn cynnig cyfieithiadau i'r cyfieithydd sydd wedi'u seilio ar ddadansoddiad o gorpws o iaith a/neu ar sail ei rheolau gramadegol.

4.9 Gall cyfieithu awtomatig fod o gymorth i gyfieithwyr drwy ddarparu bras gyfieithiadau o ddogfennau ar eu cyfer. Fe'i defnyddir i'r perwyl hwn gan wasanaeth cyfieithu'r Comisiwn Ewropeaidd er enghraifft, pan fyddant yn cychwyn cyfieithu darn o destun. Gall gynorthwyo'r cyfieithydd yn yr un modd â meddalwedd cof cyfieithu felly, gan ei fod yn darparu ffynhonnell o destun parod y byddai angen i'r cyfieithydd ei olygu. Mae modd defnyddio rhai mathau o gyfieithu peirianyddol o fewn meddalwedd cof cyfieithu er mwyn manteisio ar gynnwys y cof cyfieithu a chanlyniadau'r cyfieithu awtomatig ar yr un pryd.

4.10 Mae safon y cyfieithiad a ddarperir gan feddalwedd cyfieithu awtomatig yn amrywio, ac ni ellir ystyried cyfieithiad peiriant cyfieithu yn gyfieithiad safonol a chywir. Rhaid

---

<sup>1</sup> <http://termau.org/> [Cyrchwyd 16/05/2012]

<sup>2</sup> <http://www.termcymru.cymru.gov.uk/> [Cyrchwyd 16/05/2012]

<sup>3</sup> <http://www.microsoft.com/Language/en-US/Default.aspx> [Cyrchwyd 16/05/2012]

<sup>4</sup> <http://www.cysgliad.com/> [Cyrchwyd 16/05/2012]

<sup>5</sup> <http://techiaith.bangor.ac.uk/GeiriadurAcademi/> [Cyrchwyd 16/05/2012]

<sup>6</sup> <http://www.cysgliad.com/cysill/arlein/> [Cyrchwyd 16/05/2012]

golygu cyfieithiadau a wneir gan beiriannau cyn y gellir eu cyhoeddi. Rhaid i bobl fod ynghlwm wrth gyfieithu dogfen; ni all peiriant gymryd lle cyfieithydd proffesiynol.

- 4.11 Ni ddylid defnyddio dolenni at feddalwedd cyfieithu awtomatig ar y we er mwyn darparu fersiwn Cymraeg o wefan na chyhoeddiadau eraill sefydliad oherwydd nad oes modd dibynnu ar ganlyniadau'r cyfieithiad awtomatig. Byddai hynny'n mynd yn groes i'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## 5 Cynnal cyfarfodydd dwyieithog â chymorth cyfieithydd ar y pryd

5.1 Y nod mewn cyfarfod dwyieithog yw galluogi pobl i ddefnyddio eu dewis iaith, gan wneud hynny yn gwbl naturiol a rhwydd. Dylai sefydliad bennu gweithdrefnau sy'n sicrhau bod holl staff sefydliad yn gwybod sut y mae mynd ati i benderfynu a ddylai cyfarfod fod yn ddwyieithog, a sut mae trefnu gwasanaeth cyfieithydd ar y pryd i alluogi hynny. Dylid gwneud y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn a sicrhau bod modd iddynt gael mynediad mor rhwydd â phosibl atynt. Dylai'r gweithdrefnau ystyried y canlynol:

- Sicrhau bod pob gohebiaeth sy'n ymwneud â'r cyfarfod yn ddwyieithog gan gynnwys rhai dros dro a godir er dibenion y cyfarfod;
- Datgan ar hysbysebion ac ar agenda cyfarfodydd y bydd hi'n bosibl siarad yn y naill iaith neu'r llall, ac y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael;
- Sicrhau y bydd y cyfieithydd ar y pryd yn derbyn yr holl ddogfennau perthnasol i'r cyfarfod ymlaen llaw;
- Cylchredeg geirfa a therminoleg berthnasol os bydd y cyfarfod yn trafod pwnc nad yw fel rheol yn cael ei drafod drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Cofio y darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer pobl ddi-Gymraeg. Pur anaml y bydd galw am wasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg, er y gall hyn ddigwydd mewn rhai amgylchiadau;
- Egluro i'r cyfieithydd ar y pryd wrth drefnu'r gwasanaeth pa fath o gyfarfod sydd dan sylw – cyfarfod cyhoeddus, cyfarfod pwyllgor, cyfweliad, seminar, cyfarfod cymdeithas wirfoddol, ac ati. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i'r cyfieithydd benderfynu a yw am dderbyn y gwaith ai peidio;
- Sicrhau bod digon o amser i osod offer cyfieithu ar y pryd cyn i'r cyfarfod ddechrau a bod modd i bobl gael gafael ar yr offer yn hawdd;
- Sicrhau bod yr ystafell lle cynhelir y cyfarfod yn addas ac o'r maint iawn, a bod yr acwsteg yn dderbyniol;
- Ceisio sicrhau bod y cyfarfod dwyieithog yn llifo'n naturiol wrth symud yn ôl a blaen o'r un iaith i'r llall.

### Cyngor i gadeiryddion

5.2 Gellid darparu cyngor penodol ar gyfer cadeiryddion cyfarfodydd yn tynnu sylw at bwysigrwydd eu cyfraniad hwy at sicrhau bod pobl yn cael defnyddio'u dewis iaith. Gall cadeirydd ddangos mai'r peth naturiol i bob siaradwr Cymraeg yw siarad yn Gymraeg ac y gall cyfarfod redeg yn llyfn mewn dwy iaith. Gall wneud y canlynol:

- Annog a chefnogi trafodaeth yn y ddwy iaith;
- Croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ar ddechrau ac yn ystod y cyfarfod;
- Agor a chau pob cyfarfod yn Gymraeg neu yn ddwyieithog;
- Cyflwyno'r cyfieithydd ar y pryd, egluro'r drefn cyfieithu ar y pryd ar ddechrau'r cyfarfod, profi'r offer a sicrhau bod gan bawb offer sy'n gweithio;
- Helpu'r cyfieithydd drwy sicrhau bod pawb yn siarad yn ei dro;
- Defnyddio cymaint o Gymraeg â phosibl yn ystod y cyfarfod;
- Troi iaith siaradwyr Cymraeg y cyfarfod yn ôl i'r Gymraeg os bydd yr iaith yn dueddol o aros yn Saesneg yn dilyn cyfraniad yn Saesneg;
- Mae modd i gadeirydd ymateb yn Gymraeg i bwyntiau a sylwadau a wneir yn Gymraeg neu yn Saesneg;

- Mae modd i gadeirydd gadeirio yn Gymraeg yn unig os yw'n dymuno gwneud hynny gan fod offer cyfieithu ar y pryd i hwyluso hynny. Mae hyn yn rhoi hyder i siaradwyr Cymraeg eraill;
- Gwneud popeth y mae modd ei wneud i sicrhau bod y cyfarfod dwyieithog yn llifo'n naturiol wrth symud o un iaith i'r llall

### Canllaw i fynychwyr cyfarfodydd

5.3 Gellid llunio canllaw i fynychwyr cyfarfodydd er mwyn iddynt ystyried eu cyfraniad at sicrhau bod cyfarfod yn ddwyieithog. Gallai'r canllaw gynnwys y materion canlynol:

- Yr angen iddynt ddarparu copi o unrhyw araith a draddodir i'r cyfieithydd ymlaen llaw;
- Cofio ei bod yn anodd cyfieithu jargon, termau, ffigyrau, barddoniaeth ac yn y blaen;
- Pwysleisio bod modd iddynt siarad Cymraeg yn y cyfarfod a bod offer ar gael er mwyn sicrhau bod pawb yn eu deall.

## 6 Ysgrifennu'r Gymraeg/drafftio dwyieithog

- 6.1 Mae cymhorthion ar gael i gynorthwyo pobl i ysgrifennu'r Gymraeg yn gywir ac i ddrafftio dogfennau dwyieithog. Dylid sicrhau bod staff yn gallu defnyddio'r cymhorthion hyn a'u bod yn derbyn yr hyfforddiant a'r gefnogaeth addas i'w cynorthwyo i wneud yn fawr o'u sgiliau ieithyddol. Mae hyn yn golygu na raid i sefydliadau ddibynnu ar gyfieithu popeth er mwyn cynnig gwasanaethau dwyieithog, ac y gwneir yn fawr o sgiliau ieithyddol y staff. Mae drafftio dogfennau'n ddwyieithog hefyd yn gallu gwella safon y gwaith terfynol.
- 6.2 I gynorthwyo staff i ddrafftio'n ddwyieithog ac i ysgrifennu'r Gymraeg dylai sefydliadau sicrhau bod staff yn gallu gwneud y canlynol:
- Defnyddio rhyngwynebau Cymraeg meddalwedd sydd ar gael yn Gymraeg;
  - Eu bod yn gwybod sut mae tagio iaith dogfen yn Gymraeg;
  - Bod ganddynt fynediad at eiriaduron a chyfeirlyfrau a gwefannau sy'n cynnig cymorth ieithyddol, gan gynnwys cymorth ar ramadeg (gweler 4.5 a 4.6 uchod). Hefyd, eu bod yn gwybod sut i fynd ati i chwilio am wybodaeth yn y cyfeirlyfrau hyn;
  - Eu bod yn defnyddio meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg megis Cysill (gweler 4.7 uchod);
  - Bod trefniadau mewn lle i wirio gwaith ysgrifenedig staff yn ôl y gofyn er mwyn iddynt fagu hyder wrth ysgrifennu.

### Cyfieithu awtomatig yn y swyddfa ddwyieithog

- 6.3 Gall meddalwedd cyfieithu awtomatig gynorthwyo pobl nad ydynt yn deall y Gymraeg i gael syniad bras o gynnwys dogfen neu e-bost. Byddai hyn o gymorth mawr mewn gweithle dwyieithog lle bo unigolion yn dymuno gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac nad yw eu cydweithwyr yn deall yr iaith. Er enghraifft, gallai gweithiwr nad yw'n deall y Gymraeg ddeall yn fras gynnwys dogfen neu e-bost a ysgrifennwyd gan gydweithiwr arall yn Gymraeg heb fod angen i'r sawl sy'n drafftio gyfieithu popeth. Byddai'n rhaid pwysleisio mai bras gyfieithiad yn unig a ddarperir, ac y byddai angen i sefydliad sicrhau bod ganddo weithdrefnau mewnol addas mewn lle cyn defnyddio'r meddalwedd yn y ffordd yma gan na ellir dibynnu ar y feddalwedd i gael cyfieithiad cywir.
- 6.4 Mewn gweithleoedd lle mae staff yn drafftio yn ddwyieithog fel rhan o'u swydd gallai meddalwedd cyfieithu awtomatig hefyd fod o gymorth drwy greu bras gyfieithiad o ddogfen y maent wedi'i llunio. Byddai'n rhaid i'r defnyddiwr ddeall cyfyngiadau'r feddalwedd ac addasu'r cyfieithiad er mwyn iddo fod yn gywir. Unwaith eto, byddai'n rhaid i sefydliad sicrhau bod ganddo weithdrefnau mewnol addas mewn lle cyn defnyddio'r feddalwedd fel hyn.